# PWYLLGOR ARCHWILIO 18-12-08

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Gwilym Williams (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Ioan Thomas (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** E.T. Dogan, Huw Edwards, T.G. Ellis, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Brian Jones, Charles W. Jones, R.L. Jones, Eryl Jones-Williams, John P. Roberts a Gethin Williams.

**Hefyd yn Bresennol:** Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Gwen Carrington (Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru), Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Aeron Jones, Dafydd Ll. Hughes

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams fuddiant personol yn yr eitemau yn ymwneud â thai Cyngor a materion gofal ac anableddau y Gwasanaethau Cymdeithasol gan ei fod yn denant tŷ Cyngor a bod ei wraig sy'n anabl yn derbyn gofal cymdeithasol.

'Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitemau perthnasol.

## 2. MATER BRYS – SIEC A ANFONWYD I'R CYFEIRIAD ANGHYWIR

(Nid oedd yr eitem hon wedi ei chynnwys ar y rhaglen, ond cytunodd y Cadeirydd i'w chynnwys dan Adran 100B(4)(b), Deddf Llywodraeth Leol 1972 oherwydd y derbyniwyd gwybodaeth am y mater ar ôl i'r rhaglen gael ei hanfon at yr aelodau)

Adroddodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg iddo wneud ymholiadau i'r digwyddiad a adroddwyd yn y wasg parthed y siec am £31,500 a anfonwyd i gyfeiriad anghywir. Gwnaed y siec yn daladwy i'r person cywir ac fe baratowyd y llythyr gan y Gwasanaeth Cyllid, yn unol â'r drefn arferol. 'Roedd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn fodlon nad oedd dim o'i le o fewn trefniadau'r Gwasanaeth Cyllid o safbwynt cynhyrchu'r taliad ond yn unol â'r cais i gynhyrchu'r siec fe'i anfonwyd yn ôl i'r Gwasanaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth gan ei fod i'w amgau gyda llythyr. 'Roedd Swyddog Gweinyddol o fewn y Gwasanaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth wedi gwneud camgymeriad gan roddi cyfeiriad anghywir ar y llythyr.

Tynnodd sylw at y ffaith mai rôl y pwyllgor yw edrych ar risgiau'r Cyngor a sut y rheolir y risgiau. Bwriedir adolygu'r trefniadau o gynhyrchu sieciau a'u hanfon yn ôl i'r gwasanaeth i'w hanfon allan gyda llythyr er mwyn ceisio osgoi y math hwn o gamgymeriad i'r dyfodol. Cyflwynir adroddiad pellach maes o law i'r pwyllgor.

Cyfeiriodd aelod at y ffaith i olew gael ei ladrata o depo'r Cyngor yn Dolgellau. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod yr Adain Archwilio Mewnol wedi eu hysbysu o'r digwyddiad gan y Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol a'i fod yn adolygu os oedd gwendidau rheolaeth wedi cynyddu'r cyfle i ddwyn yr olew.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 30 Medi 2008, fel rhai cywir.

## 4. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

**a) Adroddiad i'w ystyried ar gais y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd Iechyd Meddwl – Llety Cefnogol**

Adroddwyd gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor wedi gwneud cais i swyddogion o'r Gyfadran Gofal fod yn bresennol er mwyn gallu ateb unrhyw gwestiynau a allasai godi o'r adroddiad archwiliad "Iechyd Meddwl – Llety Cefnogol".

'Roedd hyn yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiadau archwiliad mewnol a ryddhawyd yn ystod y cyfnod rhwng 1 Mehefin a 31 Awst 2008. Ychwanegodd y swyddog mai bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod y taliadau a wneir yn gywir ac yn unol â'r cytundebau gwasanaeth unigol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2007/08.

Derbyniodd yr adroddiad gwreiddiol Gategori Barn C sef na ellid datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn y drefn o weinyddu taliadau Llety Cefnogol gan na ellid dibynnu ar y rheolaethau mewn lle. O'r risgiau a adnabuwyd, 'roedd angen tynhau rhai pwyntiau sef –
a) Nid oes cytundeb yn ei le rhwng rhwng y Cyngor ac un o'r prif gyflenwyr.
b) O ran cynnal adolygiad o ansawdd y Gwasanaeth Iechyd Meddwl a dderbynnir gan y cyflenwr bydd angen tysiolaeth bod hyn yn cymryd lle. Ni anfonir adroddiadau monitro i'r Uned Contractau.
c) O fewn y broses ardystio anfonebau, mae swyddogion yn cymryd yn ganiataol bod yr unigolion wedi derbyn y gwasanaeth. Nid oes portffolio ariannol ar gyfer yr unigolion fel sydd ar gyfer unigolion Llety Cefnogol Anabledd Dysgu, sy'n creu anghysondeb ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r portffolio ariannol hwn yn ffynhonnell y gellir ei defnyddio er mwyn gwirio'r anfonebau.
ch) Mae peth pryder, yn arbennig o safbwynt ardal Dwyfor, ynglyn â diffyg posibl mewn gwahanu dyletswyddau wrth godi archebion a thalu anfonebau.
d) Y disgwylir bod unrhyw glient nad yw'n berthnasol i Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn derbyn asesiad gan yr Adain Polisi Codi Tâl. Deellir mai dim ond un client sydd ddim yn berthnasol i Adran 117 ac nid yw wedi derbyn asesiad.
dd) Mae'r Rheolwr Gwasanaeth yn derbyn adroddiadau gwariant/incwm yn chwarterol gan y cyfrifydd. Gan bod tanwariant ar y Cynllun Preswyl wedi ariannu'r gorwariant ar y gyllideb Llety Cefnogol tros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, nid yw cyllideb Llety Cefnogol felly yn adlewyrchu'r gwir gost ddisgwyliedig am y flwyddyn ariannol.

Mewn ymateb i'r pwyntiau uchod, hysbysodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yr ymgymerwyd ag ailstrwythuro o fewn y gwasanaeth yn ystod y 18 mis diwethaf a oedd wedi gwella'r sefyllfa o safbwynt y rheolwyr gan eu bod erbyn hyn yn gallu sicrhau gwell trefn ar y materion rheolaethol. Cadarnhaodd bod yr adolygiad ar y cyd yn cadarnhau darganfyddiadau'r archwiliad, sef bod angen tynhau'r trefniadau a gweithdrefnau a gyflwynwyd er sicrhau gwell cydymffurfiaeth.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol at y ffaith y ceisir cysoni ymarfer ar draws y gwasanaethau nid yn unig yn y maes Iechyd Meddwl ond hefyd bod cysondeb ymarfer gyda'r Tîm Anabledd Dysgu a'r Tîm Iechyd Meddwl fel bod yr un drefn yn cael ei ddilyn. Ymgymerwyd â rhai o'r prosesau hyn a cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth drefn newydd a fydd yn cael ei adolygu mewn cyfarfod gyda'r rheolwyr eraill yn ystod y dyddiau nesaf. O safbwynt y trefniadau ymarfer mae rhai yn fwy cymhleth a bod angen rhagor o waith arnynt.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd i reolwyr y Gyfadran Gofal er gweithrediad.**

**b) Gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 30 Tachwedd 2008**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Medi a 30 Tachwedd 2008. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfeiriodd y swyddog at -

- 19 o adroddiadau ffurfiol am archwiliadau o'r cynllun archwilio blynyddol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 1 archwiliad pryd y cynhyrchwyd memoranda, yn hytrach nag adroddiad llawn.
- 9 archwiliad dilyniant.

Adroddwyd ar waith pellach sydd ar y gweill gan Archwilio Mewnol. 'Roedd hyn yn cynnwys 9 o adroddiadau drafft sydd wedi eu rhyddhau a 31 o archwiliadau sy'n mynd rhagddynt.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

**Effaith Arbedion Ariannol ar yr Amgylchedd Reolaeth**

Tynnodd aelod sylw at y bwriad i gau Pwll Nofio Harlech a'r angen i gael trefniadau cadarn yn eu lle i sicrhau bod y disgyblion ysgol yn cael rhywle arall i ddysgu nofio fel rhan o'r cwriciwlwm cenedlaethol.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid yr ystyriwyd y mater gan Fwrdd y Cyngor ar 16 Rhagfyr 2008 pryd y penderfynwyd ymestyn dyddiad cau y pwll tan ddiwedd Mehefin 2009 er mwyn cynhyrchu ac arfarnu cynllun busnes ar gyfer trosglwyddo'r pwll i Ymddiriedolaeth. Eglurwyd ei fod yn fwriad i sicrhau penderfyniad ym Mehefin er mwyn rhoddi cyfle i'r ysgolion drefnu lle y byddai'r disgyblion yn mynd i nofio yn y flwyddyn ysgol o Medi 2009 a'i fod yn

gynamserol ar hyn o bryd i feirniadu os oes trefniadau addas mewn lle ai peidio.

**Trefniadau Recriwtio a Phenodi Staff**

Gofynnodd aelod beth oedd y drefn o benodi staff tros dro i swyddi e.e. yn ystod cyfnod mamolaeth.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg gan bod gymaint o ddyletswyddau ar y Cyngor, ceisir sicrhau y penodir swyddogion sydd gyda'r cymwysterau cywir. Pwrpas yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer lleihau'r risgiau o recriwtio'n groes i'r ddeddfwriaeth, croes i reolaeth, croes i briodoldeb ac yn groes i degwch.

**Rhoddion i Staff Cartrefi Preswyl**

Gofynnodd aelod os oedd gan y Cyngor reolaeth mewn perthynas i staff dderbyn rhoddion ariannol a sut y gellir gwahaniaethu rhwng rhodd ariannol a rhoddion eraill.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod angen arweiniad clir i'r staff parthed yr hyn sy'n dderbyniol neu'n annerbyniol. Derbyniodd yr achos hwn gategori barn C oherwydd nad oedd y canllawiau perthnasol yn eu lle.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Mehefin i 31 Awst 2008 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

**5. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2008/09**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoddi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2008/09.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 30 Tachwedd 2008 yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy'n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol -

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 36 |
| Crewyd papurau gwaith | 10 |
| Gwaith maes ar y gweill | 28 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 1 |
| Disgwyl Adolygiad | 2 |
| Adroddiad drafft | 9 |
| Adroddiad yn gytunedig | 1 |
| Adroddiad terfynol | 27 |
| Cyfanswm | **114** |

Hysbysodd mai targed perfformiad 2008/09 yw 95% ac fe ymddengys ar hyn o bryd bod y targed hwn yn gyrraeddadwy.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2008/09 a llongyfarch yr Adain Archwilio Mewnol ar gyrraedd eu targed perfformiad o 95%.**

## 6. ADNEUON ARIAN PAROD GYDA HERITABLE BANK PLC

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg a oedd yn cadarnhau bod y Pennaeth Cyllid wedi adrodd i Fwrdd y Cyngor ar 14 Hydref 2008 bod yr awdurdod wedi adneuo £4m ym Manc Heritable a roddwyd wedyn yn nwylo'r gweinyddwyr. Eglurwyd bod Cyngor Gwynedd yn un o tros 100 o awdurdodau lleol, cyrff sector gyhoeddus ac elusennau yn y DU sydd ag adneuon dan fygythiad yn dilyn cynilo arian gyda sefydliadau ariannol o Wlad yr Iâ a/neu eu his-gwmnioedd o'r DU. Penderfynodd Bwrdd y Cyngor –
a) Bod Archwilio Mewnol yn ganolog i'r gwaith o graffu'r sefyllfa'n fanwl, gan ofyn i'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg gynnal ymchwiliad trylwyr i'r mater a chyflwyno adroddiad priodol i'r Pwyllgor Archwilio ar 18 Rhagfyr.
b) Bod yr adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio i gynnwys adolygiad o rôl yr ymgynghorwyr yn y penderfyniadau perthnasol.

Ymhelaethodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod gan y Cyngor drefn hir-sefydledig ar gyfer buddsoddi arian parod tros ben am gyfnod byr. Dengys mantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2008 fod ganddo £77m o fuddsoddiadau tymor byr yn ei feddiant. Nid yw hyn yn golygu bod gan y Cyngor £77m o reserfau – clustnodwyd y rhan helaeth o'r arian ar gyfer gwariant refeniw neu gyfalaf ac 'roedd wedi ei fuddsoddi am dymor byr er mwyn cynhyrchu incwm llog ar gyfer yr awdurdod. O ystyried swm yr arian y mae'r Cyngor yn delio ag ef, mae'n ddarbodus i'r awdurdod fuddsoddi unrhyw arian tros ben sydd ganddo ar unrhyw ddiwrnod gyda sefydliadau ariannol. Ar 8 Medi 2008, adneuodd y Cyngor £4m o arian parod am gyfnod penodol o 136 diwrnod, hyd at 22 Ionawr 2009, gyda Heritable Bank plc, sefydliad a restrwyd ar y Rhestr o Wrthbartion Cymeradwy fel bod yn fanc addas ar gyfer adneuon. Ar 7 Hydref 2008 gwnaeth y Llys Sesiwn orchymyn gweinyddiaeth mewn perthynas â Heritable Bank plc. Gan bod y banc yn nwylo'r gweinyddwyr, ni allai'r Cyngor dynnu arian o'i gyfrif a bydd y Cyngor yn cael ei drin fel un o gredydwyr ansicredig banc Heritable yn y weinyddiaeth.

Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg at y modd y rhoddwyd £4m ym manc Heritable yn unol â Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor a thrwy ddilyn côd ymarfer CIPFA ar gyfer Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus, gan ledaenu risg a dibynnu ar "credit ratings" cydnabyddedig.

Rhoddodd fanylion am weithgareddau'r Rheolaeth Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol. Tynnodd sylw at y ffaith i'r Cyngor benodi cwmni Sector Treasury Services Ltd fel ymgynghorwyr parthed benthyg a buddsoddi. Hysbysodd bod y strategaeth yn cydymffurfio â chanllawiau statudol Canllawiau Cenedlaethol Cymru a Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae rhestr o Wrthbartion Cymeradwy y Cyngor yn seiliedig ar restr y flwyddyn flaenorol, wedi ei addasu pan fyddai sefydliadau yn cael eu tynnu oddi yno pan yn syrthio'n is na'r trothwy isafswm a gymeradwyodd gan y Cyngor llawn. Ychwanegwyd Heritable fel gwrthbarti yn 2007 ar sail eu statws credyd priodol.

Hysbysodd bod Heritable Bank plc yn gwmni Prydeinig a gofrestrwyd yn yr Alban. Pan aeth i mewn i weinyddiaeth 'roedd 100% o'r cyfranddaliadau yn

Heritable ym mherchenogaeth cwmni Landsbanki Holdings (UK) plc gan wneud Heritable yn is-gwmni o Fanc Landsbannki o Wlad yr Iâ.
Mewn perthynas â dibyniaeth ar statws credyd, hysbysodd bod swyddogion y Cyngor, ar adeg yr adnau gyda Heritable, wedi gweithredu o fewn llythyren y Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol, sy'n datgan mai'r isafswm statws credyd ar gyfer Adneuon Cyfnod Penodol gyda banciau a chymdeithasau adeiladu gan gynnwys adneuon galwadwy gydag aeddfediad llai na blwyddyn oedd isafswm o statws tymor byr Fitch F1 wedi ei gefnogi gan statws credyd isafswm tymor hir o "A". 'Roedd y Rhestr Gwrthbartion Misol a ddarparwyd gan Sector ar 5 Medi 2008 yn datgan fod gan Heritable statws tymor byr o F1 a statws tymor hir o "A". Eglurodd mai ffactor allweddol yng nghwymp y sector fancio yng Ngwlad yr Iâ oedd methiant economi'r wlad honno i gefnogi ei sector fancio. 'Roedd yr Uned Rheolaeth Trysorlys a Buddsoddiadau yn ymwybodol o'r gythrwfl yn sector fancio Gwlad yr Iâ, yn dilyn aeddfedu'r adnau gyda Glitnir yn Awst 2008 ni wnaed adneuon pellach mewn banciau Gwlad yr Iâ. Cadarnhawyd hefyd er bod Banc Heritable wedi ei gynnwys ar Restr y Cyngor o Wrthbartion Cymeradwy fel banc y Deyrnas Unedig, nid oedd swyddogion yn yr Uned Rheolaeth Trysorlys a Buddsoddiadau yn ymwybodol ei fod yn is-gwmni llawn o fanc arall o Wlad yr Iâ, sef Landsbanki, tan ar ôl i Heritable gael ei roddi yn nwylo'r gweinyddwyr. Casglwyd bod diffyg gwybodaeth echblyg fod perchenogaeth Heritable yng Ngwlad yr Iâ fod wedi cyfrannu at y penderfyniad i adneuo arian yn y banc penodol hwn yn ystod Medi 2008.

Hysbyswyd Archwilio Mewnol gan un awdurdod lleol arall, sydd hefyd yn defnyddio Sector fel ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys, eu bod wedi ymatal rhag adneuo arian gyda phob banc o Wlad yr Iâ, gan gynnwys Heritable ond 'roedd tros 100 o awdurdodau lleol wedi adneuo arian gyda sefydliadau o Wlad yr Iâ, neu eu his-gwmnioedd, yn seiliedig ar eu statws credyd cymeradwy. Ar 8 Medi 2008, 'roedd gan Cyngor Gwynedd falans arian parod o £20.155m i'w adneuo. Yn seiliedig ar ragolygon llif arian, rhoddwyd £7.155m mewn cyfrif tros nos. O'r helyw o £13m, adneuwyd £4m gyda banc Heritable ar raddfa llog o 5.91% gyda'r £9m arall wedi ei ledaenu ar draws tair cymdeithas adeiladu a oedd yn cynnig graddfeydd llog yn amrywio rhwng 5.76% a 5.8%. Disgwylir i'r cyfan o'r adneuon hyn aeddfedu yn Ionawr 2009. Y prif reswm tros roddi cyfyngiad ar swm yr arian y gellir ei osod mewn unrhyw un sefydliad yw er mwyn lledaenu'r risg potensial drwy isafu'r golled petai un sefydliad yn methu.

Nododd yr argymhellion canlynol a gyflwynwyd eisoes i Reolwyr y Gwasanaeth Cyllid i'w gweithredu –
a) Dylid datblygu methodoleg dau-gam ar gyfer gosod adneuon arian yn hytrach na'r drefn gyfredol o ddewis y cynnyrch uchaf gan unrhyw sefydliad sy'n cyfarfod ag isafswm safon. Ar ôl derbyn graddfeydd llog gan froceriaid ar gyfer ystod o sefydliadau yna dylid cymharu'r graddfeydd llog a gynigir gan y broceriaid gyda risg cymharol pob un.
b) Dylid sicrhau bod y wybodaeth a dderbynnir gan yr Ymgynghorwyr Rheolaeth Trysorlys ynglyn ag unrhyw sefydliad perthnasol yn cael ei rannu â'r holl bersonel allweddol.
c) Dylai'r Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol ddatgan pa wybodaeth pellach, gan gynnwys rhagolygon statws a "rating watches", fydd yn cael eu hystyried ynghyd â statws credyd ar gyfer pob sefydliad.
ch) Dylid buddsoddi adneuon arian ar sail rheolaeth risg gadarn, heb fod yn wrthun i risg a'r lefelau llog uwch y gellid ennill, a dylid adlewyrchu hyn yn y Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid mai'r sefyllfa ddiweddaraf hyd at heddiw yw bod y £4m yn parhau dan fygythiad. Ymddengys y byddai modd adennill cyfran, efallai tua hanner yr arian, ond ddim y cyfan ohono.

Penderfynwyd cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y mater canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bydd manylion ariannol yn cael ei ddatgelu ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am wneud hynny. Fel canlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid fanylion am wybodaeth a dderbyniwyd gan yr atodwr a oedd yn cynnwys manylion am werth yr asedau cyn ac ar ôl y cwymp.

Penderfynwyd troi'r pwyllgor yn ôl yn bwyllgor agored.

Hysbysodd y Pennaeth Cyllid ymhellach bod Cyngor Gwynedd ymysg 115 o awdurdodau lleol eraill sydd wedi colli cyfanswm o £858m. Ymhelaethodd bod y Cyngor yn ennill llog sylweddol drwy adnau arian tymor byr mewn banciau a bod yr arian sydd ar gael i'w adneuo yn amrywio'n gyffredinol rhwng oddeutu £50m a £100m. Drwy adneuo'r arian yma mewn banciau, mae'r Cyngor wedi ennill llog o tua £5m y flwyddyn. Cyfeiriodd at y posibilrwydd o fuddsoddi'r arian mewn lle mwy diogel, ond byddai hynny wedi denu llog oddeutu 2% yn is gyda incwm rhwng £1m a £2m y flwyddyn yn llai. Dewiswyd adnau'r arian ym manc Heritable ar sail ei statws credyd "A" a ddehonglwyd fel lle diogel gyda statws credyd uwch na'r isafswm "A-" 'Roedd yn hollol ddigynsail i fanc gadw statws credyd "A" hyd at ddiwrnod cyn iddo gwympo ond, gyda synnwyr trannoeth, mae'n amlwg y bu gorddibyniaeth ar farn yr asiantaethau statws credyd cydnabyddedig.

Mewn perthynas â chontract yr ymgynghorwyr ar gyfer y dyfodol, hysbysodd y Pennaeth Cyllid bod "Sector" wedi eu cadw fel contractwyr ers blynyddoedd lawer ar gyfer darparu gwybodaeth. Ar gyfer 2009/10, gwahoddwyd dyfynbrisiau eisoes a threfnir cyflwyniadau yn Ionawr ar gyfer dewis ymgynghorwyr ar gyfer contract wedi ei fanylu. Bwriedir i'r cyflwyniadau ddangos os yw rhai ymgynghorwyr am ddarparu gwell ansawdd o arweiniad nac eraill.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid y cymerwyd rhai camau i leihau'r risg ynghlwm â'r buddsoddiadau ers Hydref 2008 gan edrych tu hwnt i'r statws credyd a phenderfynwyd ar strategaeth arall i leihau lefel y benthyciadau a'r buddsoddiadau.

Cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid at Strategaeth y Cyngor ar gyfer 2009/10 a fydd yn fwy cymhleth gyda golwg ar wella diogelwch. Bwriedir cyflwyno'r strategaeth drafft i weithgor o'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol, a fyddai'n cynnwys yr Arweinydd Portffolio Cyllid, yn ystod Ionawr 2009 a'i graffu yn Chwefror 2009 wedi cyfweld y cwmniau o ymgynghorwyr buddsoddi.

Wrth gloi, nododd y Pennaeth Cyllid ei fod yn croesawu'r prif gasgliad yn adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg, sef bod y Cyngor heb "gamblo"

gyda’r arian, a bod y golled rhannol o’r arian yn bennaf oherwydd sefyllfa cwbl ddigynsail y farchnad bancio.

Mewn ymateb i gwestiwn, eglurwyd nad oedd gan y Cyngor, na’r Gronfa Bensiwn, unrhyw fuddsoddiad uniongyrchol gyda “Bernard L. Madoff Investment Securities” ac er ei fod yn anochel bod y Cyngor wedi adnau arian mewn rhai banciau fydd yn colli oherwydd “Madoff”, ni ystyrir bod yr adneuon arian hynny o dan fygythiad.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chefnogi’r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i Reolwyr y Gwasanaeth Cyllid er gweithrediad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12:45pm